

Dementia a Dychymyg

Crynodeb Ymchwil 1: Archwilio sylfeini theoretaidd rhaglenni celf weledol i bobl sy'n byw gyda dementia

Beth yw 'Dementia a Dychymyg'?

Roedd Dementia a Dychymyg yn gydweithrediad celfyddydol a gwyddoniaeth sylweddol rhwng prifysgolion, artistiaid, elusennau a darparwyr gwasanaethau diwylliannol. Archwiliodd ein rhaglen waith sut mae gweithgareddau celfyddydol:

- Yn fuddiol i bobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Yn ein helpu i ddeall y profiad o fyw gyda dementia.
- Yn helpu i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fyw gyda dementia.

Gwnaethom hyn drwy bum prosiect rhyng-gysylltiedig. Mae'r crynodeb ymchwil hwn yn amlygu cam cyntaf y prosiect.

Pam wnaethom ni y prosiect hwn?

Bu'r prosiect hwn yn archwilio'r ffyrdd y gall ymyriadau celf weledol arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn pobl sy'n byw gyda dementia ar bob cam o'r cyflwr.

I ddechrau, mae creu gwasanaethau effeithiol angen dealltwriaeth gref o sut y gallant ddylanwadu ar newidiadau mewn canlyniadau i gleifion. Os yw'r theori sylfaenol yn anghywir, yna ni fydd y newidiadau a ddymunir yn digwydd.



Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio'r gwaith o ddatblygu ein rhaglen celfyddydau gweledol, a brofwyd wedyn gyda phobl sy'n byw gyda dementia dros gyfnod o chwe mis (gweler crynodeb ymchwil 2).

Beth wnaethom ni?

Ar gyfer y prosiect hwn, ymgwymerwyd â'r canlynol:

- Adolygiad o ymchwil gynradd ar raglenni celf weledol. Defnyddiwyd methodoleg a oedd yn anelu at ddatgelu beth sy'n gweithio, pwy, sut, pam ac ym mha amgylchiadau.
- Dau weithdy gydag artistiaid, gan archwilio canfyddiadau o'u heffaith ymarfer mewn gofal dementia.
- Archwiliad ansoddol o safbwyntiau rhanddeiliaid o raglenni celf.

Wedyn cyfunwyd y darnau hyn o waith i gynhyrchu fframwaith cysyniadol ar gyfer y rhaglen er mwyn datblygu a phrofi ein rhaglen celfyddydau gweledol, ac i fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwil ac ymarfer pellach.


Beth yw'r prif ganfyddiadau?

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu rhai nodweddion angenrheidiol y rhaglen celfyddydau gweledol a'r artist neu ymarferydd a fyddai'n galluogi gweithgaredd wybyddol ysgogol, sy'n canolbwyntio ar y person.

Rhaglenni celf weledol – y cyfarfyddiad esthetig

Mecanweithiau

Canlyniadau



Profiad esthetig rhyfeddol

ac ysgogol

Deunyddiau o ansawdd
Oed briodol
Dim methiant
Amgylcheddau ysbrydoledig
Gwaith celf gwreiddiol
Dychymyg
Nid oes angen profiad blaenorol
Gwneud y mwyaf o alluoedd gweddilliol
Symbyliad aml-synhwyraidd
Dathlu
Yn 'yr eiliad'

Ymarfer celfyddydol deinamig ac ymatebol – hwyluso medrus

Adnabod potensial cyflawniad
Datblygiad personol a dysgu
Deall a chaniatáu ar gyfer anghenion a galluoedd unigol
Canllaw a chefnogaeth - heb gymryd drosodd
Deall byw gyda dementia
Dangos technegau
Arbenigedd artistig
Chwareus

Rhyngweithio cymdeithasol
Amser gyda'n gilydd
Cefnogaeth
Profiad a rennir
Hwyl

Dysgu newydd
Yn ysgogol yn ddeallusol

Ymgysylltu
Cyfathrebu
Cyfrannu
Sylw

Creadigrwydd

Hyder

Meistrolaeth/rheolaeth
Annibyniaeth
Hunan fynegiant

Llesiant

Pleser
Hwyliau
Mwynhad
Ansawdd bywyd

Prosesau gwybyddol

Cofio gweithgarwch a phobl
Cof am broses artistig
Rhuglder llafar

Cysylltu cymdeithasol

Cysylltiad parhaus â'r oriel a'r gweithgaredd
Cynhwysiad cymdeithasol
Llai o ynysu

Gwell canfyddiad o ddementia

Mewnwelediad dyfnach i staff a gofalywyr

Trefniadaeth a chyflenwi

Rhyngweithiadau sy'n canolbwyntio ar y person

Cydnabyddiaeth*Negodi*Cydweithredu*Chwarae*Dathlu*Ysgogi*Ymlacio*Dilysu*Gafael*Hwyluso*Creu*Rhoi

*“Empathi yw popeth. Cwrdd â'r person rydych chi'n gweithio gyda nhw fel unigolyn gwerthfawr, waeth beth fo'u gallu neu gapasiti gwybyddol”
(Hwylusydd artist, gwryw).*

Beth yw'r canlyniadau?

Hysbysodd y fframwaith hwn gynnwys ein rhaglen celfyddydau gweledol y rhoddwyd prawf arni yn ein hymchwil (gweler crynodeb ymchwil 2) ac mae ar gael yn rhwydd fel canllaw i ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau a allai fod eisiau cyflwyno prosiectau tebyg. Os hoffech gael golwg ar y llyfryn hwn, [lawrlwythwch ef yma](#).

Darperir rhaglenni celf weledol mewn manau cyhoeddus a rennir, megis amgueddfeydd ac orielau, neu gyfleusterau gofal dementia arbenigol, gan gynnwys ysbytai a chartrefi gofal.

Gallai amgueddfeydd a sefydliadau celfyddydol, gyda'u casgliadau a'u staff medrus, wneud cyfraniad diwylliannol arwyddocaol at iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu profiad o ansawdd uchel mewn amrywiaeth eang o leoliadau.

Darllenwch y cyhoeddiad llawn

Mae'r erthygl lawn sy'n disgrifio datblygiad y rhaglen mewn cylchgrawn wedi'i adolygu gan gymheiriaid, ac mae hi ar gael yn rhwydd. I ddarllen ymhellach, gweler:

Windle, G., Howson-Griffiths, T., Gregory, S., O'Brien, D., Newman, A., Goulding, A. Exploring the theoretical foundations of visual art programmes for people living with dementia. (2017). [Dementia: the international journal of social research and practice](#). Cyhoeddwyd gyntaf ar 15 Medi, 2017.